

papur priordy



**MI GLYWAF DYNER LAIS
YN GALW ARNAF FI
I DDOD A GOLCHI 'MEIAU I GYD
YN AFON CALFARÎ.**

**Lewis Hartsough (1828-1919) cyf. Ieuan Gwyllt (1822-77)
Caneuon Ffydd 483**

*Dewiswyd gan June Thomas.
Gweler y tu mewn ei hesboniad am ei dewis*

**Rhifyn 308
PAPUR CHWEFROR 2018**

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Pen Bendigeidfran ar daith

Mae stori Bendigeidfran ymhlith y mwyaf cofiadwy o'r Mabinogi. Yn ôl yr hanes, collodd y cawr ei ben mewn brwydr yn Iwerddon, ond mae'n dychwelyd i Gymru cyn cael ei rollo bob cam i Lundain a'i gladdu yno er mwyn gwarchod Prydain rhag pob trallod.



Fel rhan o ddathliadau'r Hen Galan yn ddiweddar, ailgrewyd y digwyddiad o rollo model o ben Bendigeidfran gan yr artistiaid Parry a Glynn a aeth ati i rollo'r pen a grewyd ganddynt ar hyd arfordir Penarth ym Mro Morgannwg. Bydd y pen yn mynd i nifer o leoedd ar ei daith i Fryn Briallu yn Lundain, gan gynnwys ymweliad â champws



Prifysgol Y Drindod Dewi Sant yn Llambled ddydd Mercher diwethaf. Mae'r digwyddiad hefyd yn nodi dechrau Blwyddyn y Môr, cynllun i annog twristiaid i ddod i Gymru.

Blwyddyn Y Môr

Fe gofiwch mai 'Blwyddyn y Chwedlau' oedd 2017, ond Blwyddyn y Môr yw 2018 - ymgyrch thematig a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfle i ni eleni ddathlu arfordir Cymru - arfordir ac iddi 230 o draethau a 50 o ynysoedd.

Ni chefais fy magu ar lan y môr, ond rwyf wedi byw ger y môr ddwywaith. Y tro cyntaf fel myfyriwr yn Aberystwyth, ac yn lletya ar y prom am dair blynedd, a'r eildro yn ystod cyfnod fy ngweindogaeth yn Y Barri. Y pryd hwnnw roeddwn yn gallu syllu'n ddyddiol o'm cartref cyntaf ar longau'r cwmni enwog Geest yn cario bananas o Jamaica i Gymru heb sôn am weld y miloedd yn tyrru i Ynys Y Barri ddiwedd Gorffennaf bob blwyddyn!

Y môr. Beth sydd mor arbennig amdano? Mae i'w donnau ryw swyn cyfareddol, ac eto, medrant droi, ar amrantiad, yn gyfryngau pwerus ac egnïol sy'n abl i ddinistrio. Cawn ein hatgoffa drwy aml i

storm a thrychineb am bŵer arswydus y môr.

Os yw'r môr yn ein denu ni neu beidio, fedrwn ni fyth â'i osgoi! Er nad yw'r môr yn amgylchynu Sir Gâr yn gyfan gwbl, eto, mae'r arfordir deheuol yn frith o hanes sy'n gysylltiedig â'r môr yn ogystal â bod yn gyrchfan i dwristiaid drwy'r flwyddyn sy'n dod i fwynhau'i draethau, a syllu mewn rhyfeddod at y môr.

Onid oes gan y môr ei stori ei hun i'w adrodd ym mhob ardal? Bu'n fodd i gynnal traddodiad morwrol mewn ambell deulu a chynnig porthladdoedd a fu'n fannau allforio a mewnfario nwyddau ar raddfa fyd-eang. Bu'n galon cymuned y fasnach bysgota mewn ambell ran o Gymru ac yn sail i ambell chwedl oesol mewn ambell ardal.

Bywyd fel mordaith

Gellir disgrifo bywyd fel mordaith. Yn ogystal ag arnofio ar ddŵr tawel a thangnefeddus, daw ambell storm i'n taflu o don i don hefyd.

Wynebwn y tonnau uchel drwy ymddiried yn y ffaith fod y llyw yn ddiogel yn llaw'r Capten, ein Gwaredwr Iesu Grist.



Gweddïwn

Arglwydd, rydym yn gwybod fod mawredd y greadigaeth yn ein dychryn ar adegau, pan fo'r gwynt yn chwythu ac yn annog y tonnau i godi'n uwch ac yn uwch,

pan fo'r daran yn hollti'r awyr,

a phan fo'r ddaeargryn yn agor y ddaear.

Teimlwn fel morwr bychan a diymadferth yng nghanol dy greadigaeth sydd mor aruthrol o fawr.

Ond tywys ni o Dad i weld pa mor fawr yw dy gariad tuag atom, ac i gredu na all dim ein gwahanu oddi wrth dy gariad yn Iesu Grist.

Cadw ni yn niogelwch dy gariad. Yn enw Iesu Grist. Amen



Amen

Gweddi o 'Ein Tad Moliannwn Di' gan John Lewis Jones

CRYFDER AR GYFER POB GOFYN

YNG NGHANOL bywyd digon cymhleth ac astrus yr unfed ganrif ar hugain, diolchwn y gall pob un ohonom ymddiried yn Iesu nid yn unig i ddangos y ffordd i ni ond hefyd i'w throedio gyda ni bob cam o'r daith. Mae'r Meseia'n gallu rhoi nerth i ni wynebu unrhyw sefyllfa. Mae'n barod i fod gyda ni ar bob siwrnai bob amser.

Dyna oedd bwrddwn y neges a gyflwynwyd i ni yng Nghwrdd Gofalaeth cyntaf y Flwyddyn Newydd yn y Priordy ar fore Sul 7 Ionawr 2018.

Llwyddwyd i eglurebu'r neges hon i ni'n hynod o effeithiol drwy glywed am hanes Tobias a'r Archangel Raphael yn cyd-gerdded wrth i ni gael cyfle i wyllo'r darlun enwog, *Tobias a'r Angel* ar y sgriniau rhyngweithiol. – darlun a briodolir i Andrea del Verrocchio yn y cyfnod 1470-1475 sydd i'w weld yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain



Roedd yr oedfa yng ngofal ein cyfeillion yng Nghapel Cana, un o gapeli'n Gofalaeth, yn cynnwys yn bennaf athrawon, rheini a phlant yr Ysgol Sul, fel a ganlyn: Rhun James, Bethan James, Rhian Bowen, Marlene Jones, Sara Evans, Rhiannydd Evans, Lowri Powell a Caroline Hancock. Braff hefyd oedd

clywed am obeithion personol rhai o'r ieuenctid ar gyfer y flwyddyn newydd, yn cynnwys gwella sgiliau rygbi a phêl-droed!! Diolch yn arbennig i Rhian Bowen a luniodd y sgrïpt.

Bu cyfle i ni gydgyfuno gyda'n Gweinidog a hyfryd oedd croesawu aelod newydd i'r Priordy, sef Luned Thomas. Cafodd ein Gweinidog gymorth Edward Jones (Cana), Lyn Jones (Bancyfelin), Gwynfor Davies a Gareth Gravell (Y Priordy) i weini'r Cymun



Cymerwyd rhan hefyd yn yr oedfa gan Elis Jones (Y Priordy) a Carwen Howells (Bancyfelin). Y cyhoeddwr oedd Eirlys Jones a'r casglyddion oedd Ffion Parsons a Mared Owen. Roedd Janet Davies wrth yr organ.



BU'R oedfa hon ar ei hyd yn ddechrau da i'r Flwyddyn Newydd a pha well cyngor na chyd-gerdded â Iesu bob cam o'r daith drwy 2018.

TUDALEN BLAEN

Rheswm June Thomas am ei Dewis...



Pan oedden ni'n blant yn Ysgol Sul Capel y Tabernacl, Hendygywyn ar Daf, byddai'r Gweinidog, Y Parchedig J Huw Francis, yn aml iawn yn gofyn i naill ai Mair Evans neu i finnau ganu unawd. Ymhlith y rhai y byddwn yn hoff o'u dewis roedd *Mi glywaf dyner lais*. Nid emyn ar gyfer angladd yn unig yw'r emyn hwn ond galwad i wasanaethu fel y bo'n gweithredoedd yn amlygu'n ffydd.

Fe ofynnodd Dewi Sant i ni wneud '*y pethau bychain*', fel y dywed y pennill Saesneg: '*Have you had a kindness shown? – Pass it on. 'Twas not given for thee alone – Pass it on.*'

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

CYFAILL DI-ENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn



DRWS AGORED

Bore lau, 8 Chwefror 2018

Bore lau Cablyd 29 Mawrth 2018

FESTRI'R PRIORDY

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



CWRDD PLANT A PHOBL IFANC Y PRIORDY 14 Ionawr 2018



Croesawyd pawb i'w seddau ar gyfer cwrdd plant a phobl ifanc cyntaf 2018 gan fiwsig bywiog y band. Roedd yna 2 ffliwt, 2 ffidil,




2 glarinét, 2 gitâr a drymiau yn canu emynau, gyda chroestoriad gwych o oed yn ychwanegu at ymdeimlad teuluol yr oedfa.

Dechreuwyd yr oedfa gan Noa Jones yn darllen yr emyn cyntaf. Anodd credu mai dim ond 5 oed yw Noa wrth iddo gyflwyno'r emyn yn glir a phwrpasol.

Cafwyd y cyhoeddiadau nesaf gan Eirlys Jones, a Caleb, Gwilym, Nansi a Beca'n gyfrifol am y Casgliad. Yna, cafwyd darlleniad hyderus gan Efa Evans a'i phrofiad llefaru yn yr eisteddfod yn amlwg. Tro Ffion Norgrove oedd hi wedyn i'n harwain mewn gweddi yn edrych ymlaen at y flwyddyn newydd a chydabod pwysigrwydd pob dydd ac awr newydd a ddaw i'n rhan. Arweiniodd Marged Jones y gynulleidfa i gyd-darllen adnodaau oedd hefyd yn canolbwyntio ar y thema o amser, ac fe wnaeth yn gelfydd.



Yna, daeth y bois i'r pulpud, sef Jona Marks a Jac Jones ac arddangoson nhw dalentau gwych am fathemateg wrth gyhoeddi'n union sawl awr sydd yn y flwyddyn o'n blaen a hyd yn oed sawl munud! Fel nodon nhw, '*Mae Duw'n rhoi blwyddyn newydd yn rhodd i ni.. sy'n ddechrau newydd ac yn gyfle newydd i ni*'. Yn dilyn sylwadau craff y bechgyn, cawsom gyfle i fyfyrion am y flwyddyn o'n blaen gyda chyflwyniad ar y sgrin yn ein rhoi ar ben ffordd ar drywydd blwyddyn o garedigrwydd a hapusrwydd, profiadau cadarnhaol a mwynhad.



Cawsom hwyl, wedyn, yn gwrando ar hanesyn anrheg Nadolig y Gweinidog, sef 'foot spa'. Eglurodd Beti-Wyn iddi anghofio darllen y cyfarwyddiadau cyn mynd ati i'w ddefnyddio! Cafwyd delweddau digri ar y sgrin o'r tŷ'n boddi dan swigod y *foot spa*, swigod yn yr ardd, i lawr y stryd ac yna llond capel o swigod yn boddi'r diaconiaid! Drwy lwc,

ffrwyth dychymyg Beti-Wyn oedd yr hanesyn hwn, ond trosglwyddwyd y neges yn glir i'r ieuengaf a'r hynaf yn y gynulleidfa am bwysigrwydd darllen cyfarwyddiadau cyn mynd ar daith bywyd. Pwysleisiodd Beti-Wyn mai'r Beibl yw'n llyfr cyfarwyddiadau ni ac fe gafodd y plant swigod yn anrheg ar ddiwedd yr oedfa i'w hatgoffa i ddarllen y Beibl ar ddechrau blwyddyn newydd.



Dyna ddechrau gwerth chweil i 2018 yng Nghapel y Priordy gyda chyfraniadau gwych y plant a'r band, a llawer o hwyl a sbri gyda'n gweinidog... a'i swigod!!!

PLANT DEWI

GRŴP CEFNOGAETH DEONIAETH CAERFYRDDIN

BORE COFFI


**Dydd Sadwrn 17 Chwefror 2018 am 10
Neuadd Ddinesig San Pedr**

*Pancws, Coffi, Stondinau, Cecennau,
Poteli a Mwy*

Stondin Hamperi gan Y Priordy

Mynediad £2

Croeso cynnes i bawb



CYNGERDD DATHLU 40 PAPUR BRO CWLWM

gyda

Caryl Parry Jones

Côr Llanpumsaint a'r

Cylch

Côr Seingar

Band Jazz Sipsi Galoise

Côr Ysgol Bro Myrddin

ac eraill



Nos Wener 16 Mawrth 2018

Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. 7.30yh

YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL - 2018

BU GWASANAETH dwyieithog dan nawdd Cytûn ar Nos Sul Sul, 21 Ionawr 2018 am 5 yn Nghapel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst, ar ddechrau'r Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol.



Roedd yn agos at 50 yn bresennol o wahanol gapeli ac eglwysi Cymraeg a Saesneg ein tref,



Fel y Bo Pawb yn Rhydd oedd y thema'r Wythnos Weddi eleni a lluniwyd y deunydd yn y Caribî.

Cymerwyd rhan gan wahanol aelodau eglwysig. a chynrychiolwyd y Priorddy gan Gareth Gravell. Mae'n diolch hefyd i Heather Williams am fod mor barod i roi o'i gwasanaeth wrth yr organ..

Y pregethwr gwadd oedd y Cyngorydd Alun Lenny, Maer Tref Caerfyrddin ac, yn briodol iawn, bu'n trafod rhyddid yng nghyd-destun y ffydd wirioneddol.

Traddodwyd y myfyrdod yn Gymraeg ac roedd offer cyfieithu ar y pryd ar gael.

CYNHALIWIYD cyfarfodydd gweddi boreol yn ystod yr Wythnos Weddi - yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg ar y dydd Llun ac yn y Capel Wesle o ddydd Mawrth hyd ddydd Gwener.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 7 Mawrth am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID YR OFALAETH

Nos Fercher 14 Mawrth am 7 yn Festri Cana

WESTERN MAIL - 95c CARMARTHEN JOURNAL - 80c

Y TYST

50c y rhifyn!!!

Cysyllter â Sulwyn Thomas yn ddiymdroi!



Dr Huw Michael....

HEN FYNWENT EGLWYS DEWI SANT- BEDD O DDIDDORDEB HANESYDDOL

Ym mis Ionawr cafodd y gwaith o adfer hen fynwent eglwys Dewi Sant yng Nghaerfyrddin dipyn o sylw yn y wasg a'r cyfryngau pan osodwyd carreg fedd hanesyddol ddiddorol yn ôl yn ei lle ar ôl gwaith atgyweirio gan fasiwn cerrig beddau o'r Tymbl.



Y garreg fedd dan sylw oedd un Caroline Georgiana Catherine Dalton (Prytherch ar ôl iddi briodi). Mae'r garreg yng nghornel pellaf y fynwent wrth ymyl y wal sy'n ffinio â Rhodfa Dewi Sant. Y stori yw bod Caroline yn wyres i'r Brenin Siôr III, o ganlyniad i'w mam-gu, Hannah Lightfoot fod yn wraig i'r Tywysog Siôr cyn iddo ddod yn frenin, ac y ganwyd tri o blant iddynt.



Y gred yw fod Hannah Lightfoot, a oedd yn Grynwraig, a'r Tywysog Siôr, fel yr oedd ar y pryd, wedi priodi'n gyfrinachol yn

Llundain ym 1759 a'u bod wedi cael tri o blant. Ond ym 1761, heb i'r briodas gael ei diddymu, priododd Siôr, a oedd erbyn hyn yn frenin, â Charlotte Sophia of Mecklenburg-Strelitz a hi ddaeth yn frenhines.

Fe briododd Catherine Augusta, un o ferched Siôr III a Hannah, â meddyg o Gaerfyrddin, Dr James Dalton, a chawson nhw bedwar o blant, yn cynnwys Charlotte a Caroline. Ganwyd Caroline ar 24 Rhagfyr, 1808 yn nhref Arnee, tref filwrol ryw 72 milltir i'r de o ddinas Madras yn India, lle roedd ei thad yn gweithio fel meddyg.

Does dim tystiolaeth bendant taw wyresau'r Brenin Siôr III oedd Caroline a'i chwaer Catherine, ond mae ymchwil wedi datgelu fod y stori'n llawn dirgelwch a bod yna gwestiynau heb eu hateb, er enghraifft roedd pob merch a anwyd i'r teulu'n dwyn yr enwau Augusta, Caroline, Catherine, a Georgiana - yr holl enwau'n gysylltiedig â'r teulu brenhinol ar y pryd.

Mae'n debyg fod y Brenin Siôr wedi rhoi organ bib, y bwriadodd ei gosod yn y Capel Brenhinol yn Windsor, i Eglwys San Pedr yng Nghaerfyrddin oherwydd y cysylltiad â Chaerfyrddin.

Mynwent Dewi Sant yw man claddu'i wyres, ei gŵr, Daniel Prytherch, a tri o'u plant - a nawr mae'r bedd wedi cael ei adfer ar ôl degawdau o ddiolfalwch ac esgeulustod. Roedd angen craen i godi caead y bedd bocs yn ôl i'w le; gwaith a drefnwyd gan Gadeirydd yr Elusen, Richard Goodridge. Yr Elusen sydd nawr yn gyfrifol am gynnal a chadw'r hen fynwent - Elusen Thomas ac Elisabeth Mayhook.

Mae Richard Goodridge wedi bod yn ymchwilio i'r stori ac wedi darganfod taw chwaer hŷn Caroline, Charlotte, a fu farw yn 27 oed ym 1832, a merch ieuengaf Caroline (Margaret) a fu farw yn 8 oed ym 1839 yw'r unig ddau berson i gael eu claddu mewn cell gladdu wedi'i gwneud o friciau yng nghanol y gangell o flaen yr allor yn Eglwys San Pedr, Caerfyrddin.

Mae'n rhaid bod y ddwy ferch yma wedi cael eu hystyried yn bwysig iawn ar y pryd, ond does neb yn siŵr pam. Mae'n debyg fod yr holl ddiddordeb yn y teulu hwn dros y blynyddoedd yn deillio o'r cysylltiad â'u tad-cu honedig, Siôr III.

Brodor o Frechfa oedd Daniel Prytherch, gŵr Caroline, ac felly'n Gymro Cymraeg wrth gwrs. Bu'n Faer Tref Caerfyrddin ar ddau achlysur yn y 1830au, ac yn Ynad Heddwch yn ogystal. Cafodd Daniel a Caroline dri ar ddeg o blant i gyd, a buont yn byw yn Heol y Prior ac yn mynychu Eglwys San Pedr, lle cafodd y plant i gyd eu bedyddio.

Mae'n bosib eu bod wedi symud i Eglwys Dewi Sant gan taw

honno oedd eglwys newydd y dref a oedd yn Gymraeg ei iaith. Dyw'r ysgrifen ar glawr y bedd ddim yn glir iawn ond mae modd gweld enw Daniel Prytherch a blwyddyn ei farw (1854), ac enwau tri o'i blant a phryd y buont farw: Frances (1855) a Blanche (1856), ac wedyn Daniel (mab) a fu farw yn 1857. Yn olaf mae enw Caroline:

"Also Caroline G Catherine Prytherch, Relict* of the above named Daniel Prytherch"

*** "Relict" yn golygu "gwraig".**

Mae nifer o feddau eraill diddorol yn y fynwent. Mae ar agor i'r cyhoedd a chroeso i unrhyw un ohonoch ymweld ond i chi droedio'n ofalus!

Bydd angen cyfraniadau ariannol cyson ar yr Elusen i barhau gyda'r gwaith cynnal a chadw. Rhowch wybod i **Huw Michael (☎01267 235221)** neu i **Richard Goodridge (☎07999 446636)** os oes gyda chi awydd cyfrannu at y gwaith hwn.



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

Boreau Mercher 7 a 14 Chwefror 2018

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

GWASANAETH DECHRAU'R FLWYDDYN YN Y PRIORDY DAN OFAL CANA



AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



GEIRIAU ADDAS AR DDECHRAU BLWYDDYN NEWYDD

Mae Richie Thomas, Jac a Wil, Côr Meibion Treorci, Bois y Castell a Gwenda Owen a Geinor Haf Owen ymhlith yr artistiaid sydd wedu canu'r emyn *Mae d'eisiau di bob awr*. Mae'n emyn sydd wedi tanio cynulleidfaoedd dros y blynyddoedd.

Awdur yr emyn oedd Americanaes o'r enw **Annie S Hawkes** (1835-1818). Dechreuodd gyhoeddi'i cherddi'n ifanc iawn pan oedd yn 14 oed. Ar ôl priodi ymgartrefodd ym Mrooklyn. Bu'n aelod yng Nghapel y Bedyddwyr, Hanson Place, Efrog Newydd am flynyddoedd lawr.



Gweinidog arni yn y capel hwn oedd

Robert Lowry

(1826-1899), athro llên, a chyfansoddwr emynau gosbel. Bu'n hynod o gynhyrchol fel emynyddes yn ystod y cyfnod hwn gan gyfansoddi llawer at wasanaeth yr Ysgol Sul.

Mae *Cydymaith Caneuon Ffydd* yn rhoi cefndir yr emyn i ni'n gryno:

Symbylwyd Annie S Hawks i ysgrifennu'r emyn 'I need thee every hour' un bore ym mis Mehefin 1872. A hithau'n fam brysur 37 oed fe'i hargyhoeddwyd yn ddisymwth y bore hwnnw o bresenoldeb yr Arglwydd Iesu Grist. Ceisiodd ddychmyngu sut y gellid byw heb y Gwaredwr ac fe'i harweiniwyd i ysgrifennu'r geiriau 'I need thee every hour'


Awdur y dôn yw Robert Lowry ac mae'n debyg mai yntau a ychwanegodd y gytgan at yr emyn.



Daeth yr emyn o'r Unol Daleithiau i Loegr trwy ymgyrchoedd efengylu Sankey and Moody ym 1874. Awdur y geiriau Cymraeg (*Caneuon Ffydd* 221) yw John Roberts (Ieuan Gwyllt) (1822-77), brodor o

Danrhiwfelen, Capel Seion. ger Aberystwyth. Roedd yn berson hynod o ddylanwadol ym myd emynyddiaeth Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cysylltir ei enw gan amlaf â'r Gymanfa Ganu ac, fel y dywed y *Cydymaith*, leuan Gwyllt *'yn anad neb a boblogeiddiodd y ffurf honno o fawl ac addoliad.'* Daeth dan ddylanwad ymgyrchoedd efengylu Sankey a Moody. Cyfieithodd i'r Gymraeg nifer o'r emynau a ganai Sankey a'u cynnwys yn y casgliad *Sŵn y Jiwibili*.

Mae Iwan Llewelyn Jones yn *Emynau Ffydd 3* yn esbonio fod perygl i



ni adael i'r emyn apelio at yr emosiwn yn unig. Ond o'i ddefnyddio'n gywir, fodd bynnag, mae'n gallu troi'n fendith. Dywed fod yr emyn yn cynnig tri rheswm pam mae eisiau'r Arglwydd arnom. Yn gyntaf daw hedd o'i dyner lais. Yn ail, mae temtasiynau'n colli'u grym yn ymyl Duw. Yn drydydd, mae Duw yn rhoi blas newydd ar ei eiriau pan ddaw person i ffydd. Mae'r emyn yn cloi trwy ddweud mai drwy Iesu Grist yn unig y gwneir *'pechadur edifeiriol yn eiddo Duw'*.

Gan mlynedd yn ôl i'r mis diwethaf y bu farw Annie S Hawks, awdur y geiriau gwreiddiol, ar 3 Ionawr 1918. I fynegi'n diolch iddi am yr emyn a'i neges briodol ar ddechrau blwyddyn newydd dyma ddyfynnu trosiad leuan Gwyllt yn llawn:

Mae d'eisiau di bob awr, fy Arglwydd Dduw, daw hedd o'th dyner lais o nefol ryw.	Mae d'eisiau di bob awr, trig gyda mi. cyll temtasiyna'u grym yn d'ymyl di.
Mae d'eisiau di bob awr, rho d'olau clir, rho imi nerth, a blas dy eiriau gwiw.	Mae d'eisiau di bob awr, sancteiddiaf Ri, yn Iesu gwna fi'n wir yn eiddo ti.
Mae d'eisiau, O mae d'eisiau, bob awr mae arnaf d'eisiau, bendithia fi, fy Ngheidwad, bendithia nawr	

ANGEN NEWID GWEDDI'R ARGLWYDD?!

Ni ellir cadw Gweddi'r Arglwydd rhag y penawdau!

Yn gynharach yn 2017, ar ôl cael llond bol ar gydadrodd Gweddi'r Arglwydd, dechreuodd dwy ferch o Gaerdydd ddeiseb er mwyn ceisio annog Llywodraeth Cymru i gael gwared ar gydaddoli mewn ysgolion. Roedden nhw'n dweud ei bod hi'n bryd i ysgolion ar draws Cymru gyfan 'foderneiddio'.



Ac yna, wrth i'r flwyddyn 2017 ddirwyn i ben, dyma'r Pab Ffrancis yn taro'r penawdau drwy godi cwestiwn ynghylch y Weddi. Nid cael gwared ar y Weddi oedd dan sylw'r tro hwn ond yn hytrach newid rhan ohoni.

Bu'r stori ar *Golwg 360*.

Roedd y Pab yn galw am newid darn yn y Weddi rhag rhoi'r argraff fod Duw yn ceisio temtio pobl. Dywedodd wrth sianel deledu yn Ffrainc fod rhan o'r weddi yn "*gyfieithiad gwael*".



Mae'n anhapus gyda'r cymal "*nac arwain ni i brofedigaeth*" gan ddweud nad yw Duw'n arwain neb i drafferthion. "*Fi yw'r un sy'n cwympo,*" meddai. "*Nid ef sy'n fy ngwthio i brofedigaeth er mwyn gweld sut rydw i wedi cwympo. Dyw tad ddim yn gwneud hynny.*"

Mae tad yn eich helpu i godi ar unwaith. Satan sy'n ein harwain i brofedigaeth, dyna'i adran e."

Ac yn ôl Golwg 360, byddai'i feirniadaeth yn gymwys ar gyfer cyfieithiad y Beibl Cymraeg Newydd hefyd, sy'n dweud "*a phaid â'n dwyn i brawf*".

Ond hawdd dychmygu y byddai'r Pab yn llawer mwy bodlon a thestun beibl.net: "*Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn ni'n cael ein profi*".

Beth yw'ch barn?



DATHLU'R PASG



Y TABERNACL, CAERFYRDDIN

NOS IAU CABLYD

29 Mawrth 2018

7.00pm

OEDFA GYMUN

Y PARCHEDIG

PETER CUTTS

Caerfyrddin

DYDD GWENER Y GROGLITH

30 Mawrth 2018

10.00am (yn unig)

OEDFA BREGETHU

Y PARCHEDIG ATHRO

DENSIL MORGAN

Llamed

TAITH GERDDED Y PASG - CYTŪN

Dydd Gwener 30 Mawrth 2018 - 12 o'r gloch, gan ddechrau o'r Capel Wesle lle bydd paned ar gael ymlaen llaw

CARIO'R GROES I BEN BRYN MYRDDIN

Prynhawn Gwener y Groglith, 30 Mawrth 2018

Gadael Canolfan Bryn Myrddin am 2.30 wedi gair o weddi a chario'r groes i ben y bryn. Oedfa ar ben y bryn am 3 o'r gloch a phaned yng Nghanolfan

Bryn Myrddin i ddilyn

Croeso i bawb o bob oed

Gwsgwch esgidiau synhwyrol

GŴYL GRISTNOGOL LLANW

2-5 Ebrill 2018

Canolfan y Dywysoges Gwenllïan, Cydweli

Yr Ŵyl yn ymweld â Sir Gâr am y tro cyntaf yn ei hanes. Wythnos lawn i bawb o bob oed gyda threfniadau arbennig i blant.

Gwybodaeth bellach - Nigel Davies

Swyddog Plant ac Ieuencid MIC

☎01994 230049 e-bost: mic@uwclub.net



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)



YMUNWCH YN Y DATHLU



Mae croeso i bawb ymuno yn nathliadau
Wythnos Gŵyl Dewi Tref Caerfyrddin eleni eto ac mae rhaglen
lawn ar ein cyfer.

Dydd Sul	25 Chwefror	Gwasanaeth Gŵyl Dewi Undebol Ysgolion Sul Caerfyrddin yng Nghapel Y Tabernacl am 10 y bore. Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Sant Ioan am 5 yr hwyr
Nos Fawrth	27 Chwefror	Cyngerdd gan Fand y Gwarchodlu Cymreig yn Eglwys San Pedr.
Nos Fercher	28 Chwefror	Talwrn y Beirdd Blynnyddol yn Y Clwb Pêl- droed yng nghwmni'r Prifeirdd Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood gyda Thimau'r Ysgol Farddol, Y Priordy a Ffostrasol.
Dydd lau	1 Mawrth	Sgwâr y Dref - adloniant o 10.30 y bore ymlaen gan Ysgolion y Cylch ynghyd â gweithgareddau eraill. <i>Parcio am ddim trwy'r dydd ym meysydd parcio'r Cyngor.</i>
Nos Wener	2 Mawrth	Max Boyce yn Y Lyric. (Dim tocynnau ar ôl)



Pared Gŵyl Ddewi Bore Sadwrn 3 Mawrth



Bydd Y Parêd yn cychwyn o Barc y Dref am 11 y
bore ond bydd angen i bawb fod yno cyn 10.45.. Esgob Tyddewi fydd yn
arwain Y Parêd amrywiol eleni trwy'r dref gan offen yn Sgwâr Y Clos Mawr.
Mae'n bwysig eich bod yn ymuno yn Y Parêd fel unigolion a theluoedd a
ffrindiau. Hefyd, mae croeso i fudiadau orymdeithio gan arddangos enw'r
gymdeithas gan chwifio baneri. Gofynnir i chi chwifio'r Ddraig Goch neu Faner
Dewi Sant neu Faner Llywelyn neu Faner Glyndwr. Mae'n bwysig fod
cannoedd ohonom yn gorymdeithio ac yn arddangos balchder yn ein
Cymreictod.

Parcio am ddim trwy'r dydd ym meysydd parcio'r Cyngor.



SIOE CYW



Mae Menter Iaith Gorllewin Caerfyrddin wedi trefnu bod sioe arbennig am 1.30 o'r gloch yn Neuadd San Pedr i'r plant. Rhaid cael tocynnau ymlaen llaw i sicrhau lle ar gyfer y sioe boblogaidd hon sydd ar daith ar draws Cymru. Cysylltwch â'r Fenter Iaith, Yr Atom, Heol y Brenin, Caerfyrddin neu gyda gwawr@mgsg.cymru.



Nos Sadwrn 3 Mawrth



Noson yng Nghwmni'r digrifwr poblogaidd
OWEN MONEY yn Y Lyric am 7.30.

Yn ystod yr wythnos bydd mwy o ddigwyddiadau ymylol yn y Llyfrgell ac yn Oriel Myrddin a'r Farchnad. Bydd gwobr hefyd i berchennog siop neu fusnes a fydd wedi addurno'r ffenest orau ar gyfer Gwyl Ddewi.
Cofiwch gefnogi'r Wyl arbennig hon.

ATEB Y GALW: BETI GEORGE
BBC CYMRU Fyw
15 Ionawr 2018

BBC Cymru Fyw:
Beth yw dy hoff gân a pham?



Beti George:
Eto - cwestiwn amhosib! Ond mae Watsia Di Dy Hun yn 'neud i fi wenu.

(Meinir Lloyd yw'r wraig sy'n gyfrifol am yr 'hit', Watshia Di Dy Hun)

PYTHEFNOS MASNACH DEG

26 Chwefror – 11 Mawrth 2018



ARSWYD Y BYD!

Oes rhai ohonoch chi'n cofio sleifio i mewn i'r sinema, a chithau dan oedran efallai, i weld eich ffilm arswyd neu dystysgrif x gyntaf?! Os oes, byddwn yn mentro 'nghrys y byddai o leiaf un o'r ffilmiau arswyd hyn yn cynnwys *Frankenstein* yn y teitl!



Roedd y flwyddyn 1818 yn flwyddyn fawr yn hanes arswyd. Pam meddech chi? Wel, yn y flwyddyn honno y cyhoeddwyd y nofel arswyd Gothig glasurol *Frankenstein* neu *The Modern Prometheus* am y tro cyntaf.



Awdur y nofel oedd Mary Shelley, un a gafodd fywyd yn llawn anffawd a galar. Bu farw'i mam, yr awdures Mary Wollstonecraft, ddyddiau wedi'i geni ym 1797. Rhedodd ymaith i Ffrainc gyda Percy Bysshe Shelley, gŵr priod a ffrind ei thad, pan oedd yn 16 oed. Boddodd Harriet, gwraig Percy ei hunan a phriododd yntau a Mary'n fuan wedi hynny. Collodd Mary a Percy dri phlentyn. Boddodd Percy a'i gadael yn weddw i godi mab a oroesodd. Bu hithau farw ym 1851.

Ysgrifennodd Mary Shelley lawer o lyfrau ond dim un i'w gystadlu â *Frankenstein*. Roedd hi a'i gŵr yn treulio'r haf yn y Swisti. gyda'r Arglwydd Byron ac eraill pan feddylodd am y stori. Mae'n sôn am wyddonydd ifanc, Victor Frankenstein yn arbrofi a chreu creadur doeth ond hyll. Cafodd ei ddiarddel ganddo ac mae'n crwydro'r byd yn ddibwrpas cyn dychwelyd at Victor i ddial arno am ei greu a'i wrthod. Ar y diwedd, mae'r creadur yn cilio i'r pellter ar fynydd rhew yn y Gogledd pell, fyth i'w weld eto.

Mae'r nofel yn enghraifft gynnar o stori wyddonias a chafodd ddylanwad mawr ar y pryd. Roedd alcemeg a galfaneg, yn dopigau gwyddonol poblogaidd a gwyddai Mary amdanynt yn dda. Roedd rhaid aros tan yr ailagraffiad yn 1823, fodd bynnag, i weld enw Shelley ar y testun.

Prin yw'r sôn yn y nofel am greu'r creadur erchyll. Ffrwyth dychymyg y doreth o ffilmiau arswyd a gynhyrchwyd ar y thema yw hwnnw, ynghyd â'r effeithiau, fel mellit a tharanau ac ati! Mae'n siŵr mai drwy'r ffilmiau - nifer o stabl *Hammer* -. y daeth llawer i wybod am Frankenstein am y tro cyntaf. A chofiwch mai enw'r gwyddonydd ac nid y creadur yw Frankenstein!

Bydd digon i gnoi cil drosto yng Nhŵyl Arswyd Abertoir yn Aberystwyth yn 2018, ddeucan mlynedd wedi cyhoeddi'r nofel, yn enwedig o gofio bod gwreiddiau teulu Mary Shelley, yn ôl yr hanes, yng Ngheredigion!

OND peidiwn ag anghofio ychwaith fod gwersi yn stori *Fankenstein*. Mae gwyddoniaeth yn gallu mynd yn rhy bell, mae canlyniadau bob amser i weithredoedd a pheryglus yn wir yw ceisio chwarae Duw!



Y TABERNACL, CAERFYRDDIN CYNGERDD MAWREDDOG

Nos Sadwrn 17 Chwefror 2018

Artistiaid

Côr Ysgol Gerdd Ceredigion

Andrew Rees (Tenor)

gydag

IWAN GRIFFITHS

yn arwain y noson

KEN DAVIES

Cadeirydd



Mynediad: £10 (£5 i blant dan 13)

Tocynnau: Siop y Pentan, Aelodau'r Capel neu drwy ffonio

☎01267 234462

Croeso i bawb

TWRNAMAINT PÊL-DROED A PHÊL-RWYD MIC



Pêl-droed Uwchradd



Pêl-droed Cynradd

Tudalen leuenctid@Priordy

Pêl-rwyd a Phêl-droed MIC

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn chwaraeon MIC - roedd gan Y Priordy 4 tîm: pêl- droed cynradd, pêl-droed uwchradd, pêl-rwyd cynradd a phêl-rwyd uwchradd.



Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm pêl-rwyd uwchradd ar eu buddugoliaeth! Dyma'r tro cyntaf i'r darian pêl-rwyd uwchradd gyrraedd Y Priordy. Llongyfarchiadau enfawr hefyd i'r tîmoedd eraill am chwarae mor wych. Bu Gwenan Fflur yn ddigon parod i helpu tîm pêl-rwyd cynradd Ysgol Sul Llanddarog, a ddaeth yn gyntaf! Da iawn Gwenan!

Gwasanaeth Gŵyl Dewi



Gwasanaeth Gŵyl Dewi
Ysgolion Sul Caerfyrddin.
Dydd Sul, 25 Chwefror 25 am
10 o'r gloch yn Y Tabernacl.
Plant (ysgol gynradd) i wisgo
eu gwisgoedd Cymreig. Dewch i ddathlu

Parêd Gŵyl Dewi

Dydd Sadwrn, 3 Mawrth

Dewch yn llw!

Mae angen help arnaf i gario baner Y
Priordy plis!

Cwrs Ieuenctid



Manylion pellach am
y cwrs ieuenctid gan
Beti-Wyn



Dyddiadau'r mis:

Chwefror 4 - Ysgol Sul

Chwefror 11 - Ysgol Sul a PIP

Chwefror 18 - Dim Ysgol Sul

Chwefror 25 - Dathlu Gŵyl Dewi

Mawrth 4 - Ysgol Sul

Hwyl am y tro, Beti-Wyn

TWRNAMAINT PÊL-DROED A PHÊL-RWYD MIC



Pêl-rwyd Uwchradd – Buddugol



Pêl-rwyd Cynradd

Alun Lenny ...

ARDDANGOS TESTAMENT NEWYDD 1567

MWY NERTHOL NA'R CLEDDYF

A ninnau newydd ddathlu 450 mlynedd ers cyhoeddi'r Testament Newydd yn Gymraeg, mae copi gwreiddiol i'w weld mewn arddangosfa bwysig yn Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili, ar gyrion Caerfyrddin. Lleolir yr amgueddfa yn hen Balas yr Esgob, lle cafodd y gwaith o drosi'r Testament ei gyflawni. Mae llyfr John Penri *A Treatise Containing the Aequity of an Humble Supplication* (1587) i'w weld yno hefyd.



Gwrthdaro Crefyddol

Copi o gyfieithiad William Salesbury yw canolbwynt



arddangosfa o'r enw '*Mwy nerthol na'r cleddyf: newid a gwrthdaro yn Sir Gaerfyrddin 1485 – 1714*' sy'n cynnwys Beiblau cynnar a llyfrau hynafiaethol o bwys. Mae'r casgliad yn adlewyrchu'r gwrthdaro rhwng safbwyntiau crefyddol yn yr 16ed ganrif. Mae cyfle prin i weld llyfr John Penri *A Treatise Containing the Aequity of an Humble Supplication* 1587 ochr-yn-ochr â *Godly Treatise* Robert Some 1588 sy'n ymateb i ddadleuon Penri. Mae copi o *Martyrs* Fox yn cynnwys torluniau pren o

ddienyddio'r Esgob Ferrar yng Nghaerfyrddin ac yn *Y Ffydd Ddiffuant* parheir â'r thema gyda thorluniau pren o ferthyron gyda geiriau Cymraeg yn dod o'u geneuau. Roedd Charles Edwards, yr awdur, yn cydweithio â Stephen Hughes a Thomas Gouge yn yr *Ymddiried Gymreig* i sefydlu ysgolion ar gyfer plant tlawd a hyrwyddo cynhyrchu llyfrau Cymraeg.

Allwedd Paradwys

Gellir gweld hefyd lyfr bychan iawn *Allwydd neu Agoriad Paradwys i'r Cymru* 1670. Honnir ynddo iddo gael ei argraffu yn Liege, ond mewn gwirionedd fe'i argraffwyd ar wasg gyfrinachol Gatholig, yn Llundain yn ôl pob tebyg. John Hughes o Ynys Môn oedd yr awdur, gŵr wedi troi at y ffydd Gatholig ac yn byw yn Nhreffynnon lle y cei ei adnabod fel y Tad Hugh Owen. Dangosir dwy gyfrol gan wŷr o Sir Gaerfyrddin a fu'n gweithio i ledaenu'r ffydd Brotestannaidd: *The Practice of Pietie* gan Lewis Bayly a gyhoeddwyd yn 1705 a *Canwyll y Cymry*'r Ficer Prichard 1659 – 81. (Y chweched argraffiad 1715 a geir yma)

Geiriadur Pedair iaith

Cyhoeddodd gŵr arall, James Howell, *Lexicon Tetraglotton* yn 1660, geiriadur pedair iaith, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg sy wedi'i gyflwyno i larll Carbery, y gweler portread ohono gan Syr Peter Lely ar y wal gerllaw. Roedd y portread hwn a phortread o'i wraig yn destun rhaglen deledu ddiweddar 'Britain's Lost Masterpieces'. Rhoddodd yr larll nodedd i Jeremy Taylor, y pregethwr a'r diwinydd enwog, ym mhlasty Gelli Aur yn nyffryn Tywi yn ystod y Rhyfel Cartref. Yno ysgrifennodd nifer o weithiau pwysig fel *Golden Grove*, arweiniad manwl i fywyd beunyddiol Cristion.

Yn rhan ola'r arddangosfa gellir gweld Geiriadur y Dr. John Davies, Mallwyd. Mae'n debyg ei fod yn un o'r mwyaf o'r dyneiddwyr Cymreig ac mae'r copi hwn o'i *Dictionarum Duplex* 1632, sy ag ôl traul mawr arno, yn un o drysorau'r Amgueddfa.

Mae'r arddangosfa ymlaen tan y Pasg. Oriau agor yr amgueddfa: Dydd Mawrth-Dydd Sadwrn, 10.00-4.30.



Codwyd yr erthygl ddiddorol hon o wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Diolch am ganiatâd i'w defnyddio



CANOLFAN HEOL AWST EGLWYS Y BEDYDDWYR SAESNEG



***Phil Stephenson
Cadeirydd***

***Janet Mock
Ysgrifennydd***

***Dianne Stephenson
Trysorydd***

Annwyl Mr Evans

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran Canolfan Galw-i-Mewn Heol Awst, i gydnabod yn ddiolchgar eich cyfraniad caredig yn y Priordy at ein Cinio Nadolig.

Mae'r digwyddiad wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd ac rydym yn credu'i fod yn diwallu gwir angen yn ein cymuned leol.

Mae'r Nadolig yn gallu bod yn gyfnod anodd i'r rhai sy'n galaru, neu heb deulu, neu heb fodd i ddathlu'r Wyl yn y ffordd draddodiadol.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu pwysleisio wrth eich aelodau fod eu haelioni wedi gwneud gwir wahaniaeth ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth.

Blwyddyn newydd da i chi i gyd fel eglwys, a diolch am eich caredigrwydd a hefyd eich cefnogaeth.

Yn gywir

Dianna Srephenson

Trysorydd

Llythyr a dderbyniodd Adrian Evans, ein Trysorydd, yn ddiweddar



***Casglwyd £170 at y Ganolfan gennym ar Ddydd
Sul 2 Rhagfyr 2017. Diolch i bawb a gyfrannodd
ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am
gadw'r cyfrifon.***



DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL



**Noder
Ymarfer**

**Nos Fawrth, 20 Mawrth am 6.30
yn y capel**

CLWB GWYLIAU CRISTNOGOL

**Bydd MIC yn cynnal clwb hwyl yn
ystod gwyliau Hanner Tymor
Chwefror**

**19-21 Chwefror 2018: 10.30-12.30
Festri'r Tabernacl, Caerfyrddin
Mynediad am ddim**

**Gemau Cystadlaethau Gwobrau
Crefft. Hwyl a Sbri**

Croeso cynnes i blant B2-6

Manylion pellach:

Nigel Davies

☎01994 230049 e-bost:

mic@uwclub.net

Neu

Beti-Wyn

Dyddiad Cau

11 Chwefror

THEATR Y LYRIC



Theatr Genedlaethol Cymru

Y TAD

gan

Florian Zeller

Trosiad Cymraeg gan Geraint Lovgreen

Dydd Mawrth 6 Mawrth 2018 – 13.00 / 19.30

CYNNAL Y FFLAM

*Caneuon o sioeau Cwmni Theatr Maldwyn yn
cynnwys Y Mab Darogan, Heledd, Pum Diwrnod
o Ryddid ac Ann!*

Nos Sadwrn 24 Mawrth 2018 - 19.30

Cynnal Y Fflam



Theatr y Lyric - ☎0845 226 3510

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD

2 MAWRTH 2018



Gwragedd Swrinam sydd wedi bod wrthi'n brysus yn paratoi oedfa Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd ar ein cyfer eleni. Gwlad hardd yng ngogledd ddwyrain De America wedi'i henwi ar ôl llwyth Surinen. Mae ganddi goedwigoedd a mynyddoedd gwych ac afonydd mawr lle mae'r dyfroedd gwyn byrlymus yn hynod drawiadol, ac yn gyforiog o flodau ac anifeiliaid ac sy'n cynhyrchu digon o fwyd i bawb.

Does rhyfedd felly bod gwragedd Swrinam yn ein hannog, drwy gyfrwng yr oedfa Ddydd Gweddi eleni i garu'r Greadigaeth sydd yn rhodd ryfeddol gan Dduw ac i ymrwymo i ofalu am ei fyd mewn modd cyfrifol, fel y cawn ninnau yn ein tro ei drosglwyddo'n ddilychwin i'n plant.

Dechrewyd cynnal dyddiau unigol o weddi a drefnwyd gan enwadau unigol yn America yng nghanol y 1880au. Bellach, daeth yn Ddydd Gweddi rhyngwladol ac ecwmenaidd.

Pan fydd y dydd yn gwawrio yng Nghymru ar fore Gwener, 2 Mawrth, 2018 bydd miliynau o bobl eisoes wedi addoli gyda gwragedd Swrinam a throstyn nhw, gan gychwyn gyda'r oedfaon cyntaf yn Samoa. Rydym yn rhan o don enfawr o weddi a fydd yn cofleidio'r byd nes cynnal yr oedfaon olaf wrth i'r haul fachlud yn Samoa Americanaidd. Dyna wefr yw bod â rhan yn y fath ddigwyddiad byd-eang. Cofiwch fod yn rhan ohono.

Cynhelir yr Oedfa yn yr ardal hon ar Ddydd Gwener, 2 Mawrth 2018 yng Nghapel yr Annibynwyr Saesneg yn Heol Awst.



DARLLEDU CREFYDDOL

CYHOEDDWYD fod y BBC yn bwriadu rhoi mwy o sylw yn ystod oriau brig i wyliau nad ydynt yn rhai Cristnogol, fel Eid al-Adha Gŵyl y Bara Croyw a Diwali, a hynny er mwyn dod i'r afael â phryderon nad yw'n llwyddo'n ddigonol i adlewyrchu cymdeithas ym Mhrydain heddiw..



Fel canlyniad i'r cynigion i ddwyn mwy o themâu crefyddol i mewn i raglenni teledu a radio prif ffrwd, mae gwylwyr yn debygol o weld cymeriadau mewn dramâu poblogaidd yn mynd i'r afael â chyfyngderau a achosir gan eu ffydd. Bydd dyddiau gŵyl Hindw, Mwslim, Sikh ac Iddewig yn cael sylw ar raglenni poblogaidd, yn cynnwys *The One Show* ar BBC 1 a *The Chris Evans Breakfast Show* ar Radio 2.

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y BBC, byddwn yn gweld rhaglenni dogfen ar faterion crefyddol a moesegol yn ystod oriau brig. Bydd Ystafell Newyddion y BBC yn ymestyn ei dîm materion crefyddol byd-eang. Bydd *Thought for the Day* ar Radio 4 yn dwyn cyswllt mwy agos ag eitemau newyddion a chaiff rhagor o fenywod, pobl ifainc a phobl o ystod ehangach o grefyddau'u gwahodd i gymryd rhan.

Dywedodd y Gwir Anrhydeddus **yr Arglwydd**

Hall o Benbedw; Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, na fyddai'r newidiadau'n effeithio ar ymrwymiad y gorfforaeth i Gristnogaeth. Byddai'r gorfforaeth yn dod o hyd i ddulliau arloesol o drafod y Nadolig a'r Pasg. Bydd y cynlluniau newydd yn sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, y byd a'r rhan mae crefydd yn ei chwarae mewn bywyd bob dydd. Byddant hefyd yn gwella dealltwriaeth o'r dylanwad a gaiff crefydd ar benderfyniadau a wneir gartref a thramor.



Ymgynghorodd Adolygiad Moeseg a Chrefydd y BBC â mwy na 150 o arweinwyr ffydd ac arbenigwyr, yn cynnwys Archesgob Caergaint, y Prif Rabbi ac uwch bersonau Mwslim yn ogystal â grwpiau credoau seciwlar, yn cynnwys Dyneiddwyr y Deyrnas

Unedig. Clywyd cwynion nad yw rhaglenni'r BBC yn adlewyrchu swyddogaeth ffydd mewn bywyd bob dydd na'r amrywiaeth yn ein cymunedau mewn drama a chomedi prif ffrwd.

Mae'r gorfforaeth hefyd wedi ymateb i'r rhybuddion ei bod mewn perygl o wthio'i chynnwys ffydd i'r mylon. Mae'n dweud ei bod yn cynhyrchu 7,000 o oriau ar grefydd bob blwyddyn – mwy nag unrhyw ddarlledwr arall. Ond addoli a thrafod traddodiadol y tu allan i'r oriau brig yw'r cynnwys yn bennaf, fel *Songs of Praise* a'r *Sunday Programme* ar Radio 4. Ac roedd llefarydd ar ran Eglwys Loegr adeg Nadolig 2016 yn honni bod y rhaglenni crefyddol wedi mynd yn rhy lluddedig a fformiwlâig.



Mae'r BBC wedi nodi 2019 fel '*blwyddyn credoau*.' Bydd hefyd yn cynrychioli barnau'r rhai nad ydynt yn ymwneud â chrefydd draddodiadol ond sydd yn ysbrydol.

Ar 13 Chwefror 1923 y dechreuodd y BBC ddarlledu yng Nghymru pan agorodd y British Broadcasting Company (fel roedd y pryd hwnnw) ei orsaf yng Nghaerdydd. Yn gynnar iawn yn hanes darlledu, rhoddwyd lle blaenllaw i raglenni crefyddol. Darlledwyd y rhaglenni cynnar o wahanol gapeli a, chyn hir, dechreuwyd darlledu gwasanaethau arbennig o'r stiwdio. Yn nyddiau'r stiwdio fechan yn Castle Street yng Nghaerdydd y darlledwyd y gwasanaeth cyntaf. Arweiniwyd y gwasanaeth hwnnw gan William Evans (Wil Ifan), gweinidog ar y pryd yn Richmond Road, Caerdydd, a fu farw hanner can mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon.'

Bu datblygiadau mawr ym maes darlledu dros y blynyddoedd a chafodd BBC Cymru Wales ei lansio ar 9 Chwefror 1964 Mae'n adran neu ranbarth

cenedlaethol o'r BBC ar gyfer Cymru sy'n cynhyrchu ystod eang o raglenni teledu a radio a gwasanaethau ar-lein yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ceir dwy sianel deledu Saesneg, sef BBC One Wales a BBC Two Wales, a dau wasanaeth radio cenedlaethol, sef BBC Radio Cymru (yn cynnwys bellach Radio Cymru 2) yn Gymraeg a BBC



Radio Wales yn Saesneg. A BBC Cymru sy'n gyfrifol am gynhyrchu rhaglenni Newyddion S4C a'r gyfres sebon boblogaidd *Pobol y Cwm*.



TYBED sut bydd BBC Cymru Wales yn ymateb i'r argymhellion a gynhwysir ar ddarlledu crefyddol yn adolygiad y BBC? A gredwch chi fod rhaglenni crefyddol BBC Cymru / Wales yn llwyddo i adlewyrchu cymdeithas Cymru'n ddigonol heddiw?

**Cyfres Darlithedd Cytgord Rhyng-ffydd
CYNNYDD AT DDIWINYDDIAETH O GREFYDDAU
gan**

YR ATHRO GRAHAM WARD

*Athro Regius Diwinyddiaeth yng Ngholeg Eglwys Crist,
Rhydychen*

Dydd Llun 12 Chwefror 2018 – 11 y bore
Theatr Halliwell, Campws Caerfyrddin
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,

Tocynnau rhad ac am ddim drwy Facultyoffice@uwtsd.ac.uk



YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Dr Huw Michael.

Tŷ Hir, Llys Picton, Caerfyrddin, SA31 3DQ

☎01267 235221

e-bost: huwmichael@hotmail.com

Croeso i chi gysylltu ag e!



**BETH AM DROI AT WEFAN
COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG?**

colegyrannibynwyr.cymru





LUNED THOMAS

*yn dod yn
aelod newydd
yn y Priordy
yng Nghwrdd
Cymun
dechrau'r
flwyddyn*

*Gwenan
aelod yn ein
Hysgol Sul a
gafodd
hefyd
chwarae
mewn tîm
cynradd ar
y cyd â
Chapel
Newydd*



*Llanddarog yn Nhwrnaint Pêl-rwyd MIC a
dod yn fuddugol*

BLWYDDYN NEWYDD - HEN STORI!

Un o fwganod mawr ein cyfnod yw tlodi ac mae'n dal i ffynnu ym Mhrydain 'gyfoethog' heddiw, fel y cawn ein hatgoffa mewn adroddiadau diweddar. Y dynodydd tlodi sy'n cael ei ddefnyddio ynddynt yw teulu ag incwm sy'n is na 60 y cant o incwm canolrifol y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree adroddiad ym mis Rhagfyr 2017, sef *Tlodi yn y DU 2017*



Mae'r adroddiad yn nodi fel y bu gostyngiad trawiadol mewn tlodi dros yr 20 mlynedd diwethaf ymhlith pensiynwyr a mathau penodol o deuluoedd â phlant, sef y rhai yn y risg mwyaf yn draddodiadol.



Ond, yn ôl y Sefydliad, mae'r cynnydd hwnnw'n dechrau datod a'r cyfraddau tlodi ymhlith y ddau grŵp yn dechrau cynyddu eto.

A beth yw'r rhesymau am hyn, meddech chi? Wel, yn ôl yr adroddiad, gellir priodoli cyfradd gynyddol tlodi i dri achos:

- Cymorth y wladwriaeth ar gyfer teuluoedd incwm isel yn syrthio mewn termau real;
- Rhentu cynyddol a llai o gymorth ar gyfer rhentwyr incwm isel;
- Codiad cynyddol mewn cyflogaeth yn methu â lleihau tlodi bellach.

Ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig, yn ôl yr Adroddiad, yng Nghymru mae un o'r graddfeydd tlodi uchaf ar gyfer deiliaid tai o oedran gweithio - ychydig yn is yn unig na Llundain a thebyg i Ogledd-Ddwyrain Lloegr.

Fel y dengys canfyddiadau Sefydliad Joseph Rowntree mae tlodi ac anghyfartaledd yn parhau i fod yn ffactorau annerbyniol yn y Gymru gyfoes, fel yn y Deyrnas Unedig yn wir.

Cyhoeddodd yr elusen *Achub y Plant* adroddiad ym mis Ionawr 2018, sef *Darnau Bach. Darlun Mawr*.

Mae'r adroddiad yn ein hatgoffa fod bron i un o bob tri, neu 200,000, o blant yn byw mewn tldi yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn ddigyfnewid dros y degawd diwethaf.



Achub y Plant
Save the Children

Dyma gyfradd uchaf tldi plant yn unrhyw wlad yn y Deyrnas Unedig. Ac mae dadansoddiad a wnaed ym mis

Tachwedd 2017 gan Achub y Plant wedi dangos bod 49,014 (28%) o blant o dan 5 oed yng Nghymru'n cael eu hystyried i fod yn byw mewn tldi incwm.

Mae'r adroddiad yn dweud fod plant sy'n byw mewn tldi yn fwy tebygol o berfformio'n waeth o ran lefel eu geirfa, y gallu i ddarllen, datrys problemau a sgiliau eraill hyd yn oed cyn iddyn nhw gyrraedd yr ysgol.

Does ryfedd felly fod yr adroddiad yn galw am weithredu ar frys i wella darpariaeth addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n cydnabod y gwaith sydd eisoes yn digwydd ond yn dadlau bod modd gwneud mwy yng Nghymru i fanteisio ar rôl addysg gynnar a gofal plant wrth fynd i'r afael ag effaith tldi ar addysg gynnar plant.

Ac yna ym mis Ionawr 2018 eto, daeth ffigurau gan *End Child*



Poverty a barodd i'r mudiad *Plant yng Nghymru* ddatgan fod tldi plant yn gyffredin ym mhob rhan o Gymru, gyda nifer cynyddol o

blant yn cael trafferth ymdopi. Mae'r cyfraddau uchaf o dldi mewn ardaloedd yn ne a gorllewin Cymru.

Dyma'r deg ardal uchaf: Caerdydd (32.84%), Blaenau Gwent (31.12%), Casnewydd

(31.75%), Merthyr Tudful (29.82%) Sir Gâr (29.54%), Castell-nedd Port Talbot (28.9%), Ceredigion

(28.86%), Sir Benfro (28.64%), Torfaen (28.50%) a Phenybont ar Ogwr (28.29%).



Onid yw cynnwys yr adroddiadau ynddo'i hunan yn ddigon i ddangos i ni pa mor bellgyrhaeddol yw effeithiau tldi? Go brin y gallwn ystyried ein hunain yn wlad wâr tra bo plant yn byw mewn tldi a'r graddfeydd yn codi. Onid oes gormod o blant yn ein

gwlad gymharol 'gyfoethog' yn tyfu heb yr angenrheidiau hynny sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u potensial llawn?

Gwaetha'r modd, mae'n ymddangos fel ein bod ni'n parhau i geisio dod i'r afael â symptomau tlodi yn hytrach na'r achosion sylfaenol.

Mae dileu tlodi, yn enwedig tlodi plant, yn dasg ofnadwy o heriol, eto i gyd mae'n fater anhepgorol. Araf yw'r cynnydd a wnaed hyd yma, gan awgrymu fod angen gweithredu cynlluniau llawer mwy uchelgeisiol i'w daclo o ddifrif.



CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL Y PRIORDY SWPER GŴYL DEWI

ying ngofal

Dynion yr Eglwys

FESTRI'R CAPEL

NOS LUN, 5 MAWRTH 2018 am 7.00 yn y Festri

Pawb i ddod â'i fasn a'i lwy ei hun


Pris y Noson £5 (Plant am ddim)

Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel, os gwelwch yn dda.

Dewch yn llw!



BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG
YN Y CYNTEDD**

Carys Morgans, Swyddog

Cyswllt y Gefeillio

yn cyflwyno...

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

OEDFA WEDDI A MYFYRDOD


Dyma un o ddigwyddiadau dechrau'r flwyddyn bob tro. Trefnir yr oedfa hon gan Gyngor Eglwysi'r Dref. Yn Festri Salem y cynhaliwyd y gwasanaeth eleni a bu aelodau Caersalem, Salem a Seilo'n cymryd rhan.



WYTHNOS WEDDI AM UNDEB

Ym mis Ionawr hefyd, cynhelir yr **Wythnos**

Weddi am Undeb Cristnogol. Cyngor Eglwysi'r Dref sy'n trefnu hyn hefyd ac yn Eglwys y Santes Fair y cynhaliwyd y gwasanaeth eleni gydag eglwysi Salem, Seilo, Santes Helen, Santes Fair ac Ebeneser yn cymryd rhan. Rhoddwyd neges gan y Parch Mererid Mair a'r Canon Roger Donaldson



AGOR Y LLYFR

Mae'n dymor newydd a bydd criw Agor y Llyfr yn ymweld ag Ysgol Maesincla ar ôl cael croeso yn Ysgol y Gelli yn ystod y tymor diwethaf – mae'n bwysig cadw pawb yn hapus!

COLEG Y BALA

Penwythos Cwrs Ieuenctid

16-18 Chwefror 2018

Blynyddoedd 7-11

Bws am ddim

Manylion pellach: Nigel Davies

☎01994 230049 e-bost:

mic@uwclub.net



GWOBRAU DATHLU DIWYLLIANT CYNTAF SIR GAERFYRDDIN

Bydd y rheiny sy'n cyfoethogi ein bywydau drwy gerddoriaeth, y celfyddydau a llenyddiaeth yn cael eu cydnabod yng Ngwobrau Dathlu Diwylliant cyntaf Sir Gaerfyrddin. Nod y gwobrau, a lansiwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, yw dathlu rhagoriaeth ym maes diwylliant a'r celfyddydau, ac arddangos ein cyflawniadau diwylliannol ym mhob rhan o'r sir.



Cynhelir y gwobrau ym mis Ebrill a byddant yn tynnu

sylw at bwysigrwydd diwylliant yn ein rhanbarth. Maent yn agored i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n hanu o'r sir, a wnaeth gyfraniad sylweddol i ddiwylliant Sir Gaerfyrddin yn ystod 2017.



Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, sy'n hyrwyddo'r cynllun gwobrau ac mae'n credu y gallai fod yn ddathliad blynyddol.

Mae chwe chategori yn agored ar gyfer enwebiadau.

Rhagoriaeth yn y Celfyddydau Perfformio

Cydnabod perfformiwr neu grŵp o berfformwyr neu sefydliad a wnaeth argraff arbennig yn ystod 2017. Gall hyn gynnwys theatr, dawns, iaith lafar, a chomedï (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny).

Rhagoriaeth yn y Celfyddydau Gweledol a Chreffttau

Cydnabod unigolyn, grŵp neu sefydliad sy'n gweithio ym maes y celfyddydau gweledol, dylunio, ffotograffiaeth neu greffttau y mae eu gwaith wedi gadael argraff a fydd yn para.

Rhagoriaeth yn y Cyfryngau Creadigol

Cydnabod cyflawniadau unigolyn, grŵp neu sefydliad yn y cyfryngau creadigol yn ystod 2017. Gallai hyn gynnwys Ffilm, Animeiddio, Dylunio Graffeg, Dylunio Gemau, a Chelf Ddigidol (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny).

Rhagoriaeth mewn Llenyddiaeth

Cydnabod unigolyn, grŵp neu sefydliad rhagorol sy'n gweithio ym maes ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth, rhyddiaith neu farddoniaeth a wnaeth argraff arbennig yn ystod 2017.

Rhagoriaeth mewn Treftadaeth

Cydnabod rhagoriaeth gan unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd wedi codi proffil neu wedi dathlu hanes a threftadaeth Sir Gaerfyrddin yn ystod 2017.

Rhagoriaeth mewn Cerddoriaeth

Cydnabod cyflawniadau unigolyn, grŵp neu sefydliad ym maes cerddoriaeth yn ystod 2017. Gall hyn gynnwys cerddorion, cantorion, arweinwyr a chyfansoddwyr (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny).

Bydd y beirniaid yn cyflwyno dwy wobwr arbennig:

Talent Ifanc

Unigolyn neu grŵp, o dan 25 oed, sy'n gweithio mewn unrhyw ddisgyblaeth, sy'n dangos gwir botensial a thalent yn gymharol ifanc.

Cyfraniad Eithriadol i Ddiwylliant

Mae'r wobwr hon ar gyfer rhywun sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r celfyddydau a diwylliant yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod hir.

Bydd panel beirniadu yn dewis rhestr hir, ac yna rhestr fer, cyn dewis enillydd y wobwr a dau arall sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol ym mhob categori.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw dydd Gwener, 23 Chwefror am 5pm. Gall pobl enwebu unigolion, grŵp neu sefydliad ar-lein drwy fynd i www.culture.surveymonkey.com neu drwy fynd i'ch llyfrgell leol, swyddfa docynnau'r theatr neu Yr Hwb yn Llanelli.

Cyflwynir y gwobrau mewn seremoni yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli, ddydd Gwener 6 Ebrill, 2018

**GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN
Bore Gwener – 9 Mawrth 2018 – 11 o'r gloch
gyda'n
Gweinidog**



**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?**

www.annibynwyr.org

CODANI & AMOS TRUST
YN CYFLWYNO | INTRODUCING
"Yn Groes i'r Graen"
"Against the Grain"

**GARTH
HEWITT**

Caneuon o gyfiawnder a heddwl
Songs for justice and peace

CÔR GOBAITH

**Y Morlan
Aberystwyth**

**Nos Sadwrn | Saturday
10.03.18 7:00pm**

Tocynnau £8 | Dan 11 £6

meinir@cadwyn.com | Siop y Pentan | 07969124056
WWW.GOFUNDME.COM/CODANI



Beth am droi at
cyfundeb.com?

Gwefan Cyfundeb
Annibynwyr
Gorllewin
Caerfyrddin



NOS SUL - 4 CHWEFROR 2018

Bydd yr oedfa nos Sul am
5 ychydig yn fyrrach nag
arfer gan y byddwn yn
gwahodd Ahmed o'r Tŷ
Capel atom am baned
bach cyflym er mwyn rhoi cyfle iddo gwrdd â rhai ohonom.
Croeso i bawb.



Mae'r Criw Bugeilio, wrth gwrs, yn ymweld ag e'n gyson – a
diolch iddyn nhw am hynny - ond bydd nos Sul yn gyfle i'w
gyflwyno i fwy ohonom.



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Chwefror		Mawrth	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Adrian Evans	Alun Charles	Wyn Evans



BLODAU



Chwefror	4	Non Davies	Mawrth	4	Enid Wyn Jones
	11			11	
	18	Catrin Jones (Cae Seiri)		18	Jill Edwards
	25			25	



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Chwefror	4	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones
Mawrth	4	Bore	Rhian Pritchard-Franklin a Rachel Davies



YMWELWYR



Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans
Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones, Henry a Bronwen Wilkins



DARLLENWYR



Chwefror	4	Dr Huw Michael	Mawrth	4	Elen Marks
	11	Elinor W Reynolds		11	Jayne Woods
	18	Gill Owens		18	Mari Jenkins
	25			25	



CYHOEDDWYR



Chwefror	Chris Lloyd	Mawrth	Adrian Evans
----------	-------------	--------	--------------



BRAINT oedd cael derbyn Luned Thomas, Clos y Ffynnon, Caerfyrddin, yn aelod ar Sul cyntaf Ionawr yn ystod y Cymundeb yng Nghwrdd yr Ofalaeth. Mae Luned yn addoli'n gyson gyda ni ac yn fam i Mared sy eisoes yn aelod, Catrin a Gruffudd, ac yn ŵr i Owen. Diolchwn am ei chael yn rhan o fywyd a gwaith ein capel.

Mae Rowland Tudor Evans, Caerdydd, mab Llifon Evans, Heol Llangynnwr, ac un a godwyd yn ein Hysgol Sul, yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Ein cofion cynnes ato a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau mawr i Gruffudd Thomas, Clos y Ffynnon, ar ennill Tlws Chwaraewr y Flwyddyn dan 13 yn Noson Wobrwyd Cyngor Tref Caerfyrddin yng Nghlwb y Cwins. Mae Gruffudd yn chwarae criced dros Glwb Criced Bronwydd a'r llynedd bu'n Chwaraewr y Flwyddyn gyda Thîm Cymru dan 13 a chafodd y fraint o fod yn gapten mewn sawl gêm. Pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.



Yr un llongyfarchiadau i Heledd Mai Jones, Hengil Fach, a fu'n cynrychioli Clwb Dyffryn Tywi yn rownd sirol Siarad Cyhoeddus Ffermwyr Ifainc Sir Gâr. Daeth tîm y clwb yn gyntaf yn y gystadleuaeth dan 26 a dewiswyd Heledd, sy'n 17 oed, yn siaradwraig orau. Ardderchog a phob lwc yn y rownd derfynol yn Llanelwedd ym mis Mawrth.



Yn y Noson Lawen ar S4C o'r Lyric yng Nghaerfyrddin bu Côr Ysgol y Dderwen yn perfformio dan arweiniad Catrin Jones. Roedd y Côr yn cynnwys Siwan Jones, Gwenllian Jones, Mia Lewis, Harri Howells, Erin Roderick, Anest Elias a Gruffudd Owen o'n Hysgol Sul yn y Priordy. Da iawn chi. Dyma'r Côr, wrth gwrs, a enillodd y trydydd safle yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr y llynedd.



Bu nifer o'n haelodau ar y cyfryngau'n ddiweddar. Yn eu plith y Dr Huw Michael ar **Post Cyntaf Radio Cymru** a **Newyddion Naw** ar **S4C** yn sôn am adnewyddu bedd o ddiddordeb hanesyddol yn Eglwys Dewi Sant. Mae erthygl gan Huw am hyn yn y Papur hwn. Bu Huw hefyd ar **Newyddion Naw** fel arbenigwr ynni yn trafod dyfodol Cynllun Morlyn Llanw Bae Abertawe. Da oedd

gweld Iris Griffiths ar **Heno** yn sôn am y pleser a gaiff o fod yn rhan o'r Grŵp Gwau sy'n cyfarfod yng Nghartref Plas-y-dderwen lle mae hi wedi ymgartrefu. Bu'r Dr Menna Elfyn ar **Heno** ar ddiwrnod A A Milne yn sôn, ymhlith nifer o faterion, am ei dyled i'r awdur hwnnw a'i chyfrol **Bondo** Gwelwyd Peter Hughes Griffiths ar **Heno** yn y cyfarfod i lansio Rhydaman yn Dre Ddiwylliannol Sir Gâr eleni. Bu hefyd ar **Prynhawn Da** yn sôn am gynlluniau Cyngor Sir Gâr i anrhydeddu diwylliant. Gwelwch fwy am hyn yn y Papur hwn. A chlywyd Elinor Wyn Reynolds yn adolygu'r papurau ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Chris a Huw Lloyd, Bronwydd ar golli mam Chris, sef Sarah Ann Richards, yng Nghartref Gofal Waungron, Hendy-gwyn ar Daf, ar 16 Ionawr. Meddylwn hefyd am Ceri Haf, Elin Llwyd, Llew a Cai a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Tabernacl, Hendy-gwyn a Mynwent Soar a chymerodd ein Gweinidog ran.



DARLLENIADAU



Mis	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 5: 13-20
Wythnos 2	Mathew 5: 21-37
Wythnos 3	Mathew 5: 38-48
Wythnos 4	Mathew 17: 1-9
Dydd Gŵyl Dewi	Salm 87

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip a Huw Michael am y lluniau'r mis hwn





Y SULLIADUR



Chwefror	4	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Casgliad rhydd at Blant Dewi	Cymun
	11	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog Casgliad rhydd at Blant Derwi	
	18	<i>Bore P'nawn</i>	Alun Lenny Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gydag Alun Lenny	
	25	<i>Bore Hwyr</i>	Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng nghwmni'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 yn y Tabernacl Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriaid y dref am 5.00 yn Eglwys Sant Ioan	Cymun

Mawrth	4	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
Sul y Mamau	11	<i>Bore</i>	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	18	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg	
Sul y Blodau	25	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu (Sul y Mamau) GD – Gwasanaeth Gŵyl Dewi yn y Tabernacl am 10							
Chwefror				Mawrth			
4	11	18	25	4	11	18	25
✓	✓ PIP	-	GD	✓	OD	✓ PIP	CP

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Nos Iau, 8 Chwefror 2018 – 7 o'r gloch
Festri'r Tabernacl
yng nghwmni
Dr Ioan Mathews



Yn ymuno â Chymdeithas y Tair Eglwys, sef y Tabernacl, Talog a Foelcwan